

GWEITHREDWCH YN DDOETH WRTH I'R DIWEDD AGOSÁU

Nodyn i'r siaradwr:

Gwyddom fod diwedd y byd hwn yn agos. Ymresymwch â'r gynulleidfa ynglŷn â sut y dylai difrifoldeb y ffaith honno effeithio ar ein bywydau. 'Ydi'n dewisiadau a'n penderfyniadau ni yn adlewyrchu ein bod ni'n sylweddoli fod yr hyn a wnawn 'nawr yn effeithio ar ein dyfodol, ein bywyd neu ein marwolaeth?

PAM Y GWYDDOM FOD Y DIWEDD YN AGOS (6 mun.)

Mae Tystion Jehofah yn argyhoeddedig fod diwedd y gyfundrefn ddrwg bresennol yn agos

Mae hyn yn haeddu ystyriaeth, gan mai mater bywyd neu farwolaeth ydyw

Ni all y ddynoliaeth barhau ar ei gwrs presennol

"Wrth i ddyd anelu am ddegawd olaf yr 20fed ganrif, mae'n ei ganfod ei hun ar drobwyt tyngedfennol: bydd gweithredoedd y rheiny sy' 'nawr yn fyw yn penderfynu dyfodol, ac o bosib' barhâd, y rhywogaeth. 'Nid cenedlaethau sydd gennym i geisio llwyr newid pethau, dim ond blynyddoedd,' yw rhybudd Lester Brown, llywydd y Sefydliad Worldwatch sydd â'i ganolfan yn Washington" (*Time* 1/2/89 30)

Ymhlith y problemau mae prinder cynyddol bwyd, cynnydd dirwystr y boblogaeth, prinder dŵr, effeithiau llygredd, annigonolrwydd cynnudd, hyd yn oed fygwth cyflenwadau ocsigen (*g79* 9/22 4-10; *g90* 2/8 31)

Dengys y dystiolaeth ein bod yn y dyddiau diwethaf a ragfyngwyd yn y Beibl (*gm* 134-48)

MAE CWESTIYNAU DIFRIFOL YN WYNEBU POB UN OHONOM (5 mun.)

Pa un yw'r cwrs doeth i'w ddilyn? Ble mae canfod yr ateb?

'Ddylech chi droi at ddynion neu at Dduw?

A ddatrysodd gwyddonwyr broblemau dyn, neu a ydyn' nhw wedi helpu i brysuero'r argyfwng presennol? (*re* 94; *g82* 11/8 4-5)

Pwy ŵyr orau beth yw anghenion dyn?

Onid Duw greodd dyn a'r ddaear?

Onid Duw sy'n 'nabod cylchredau ac adnoddau'r ddaear orau? (*Job* 38:4, 24, 28, 34-36)

'Ddaw Duw â'r drefn bresennol i ben a sefydlu cyfundrefn newydd?

Oni ddylech chi edrych i gyfeiriad Duw? (*Salmau* 24:1, 2; 25:4; 32:7, 8)

Pwy yw'r bobl y dylech gymdeithasu â nhw 'nawr?

Diwygwyr cymdeithasol? Gwyddonwyr yn ceisio datrys problemau?

Mae Duw yn amlinellu llwybr doethineb i'r rhai sy'n disgwyl goroesi

Doeth yw cymdeithasu â'r rhai sy'n dilyn y llwybr hwn (*Salmau* 14:1; *Diar* 13:20)

ANGEN YMBWYLLO, GAN WEITHREDU'N DDOETH WRTH I'R DIWEDD AGOSÁU (5 mun.)

Mae cyngor y Beibl yn 1 Pedr 4:7 yn arbennig o addas 'nawr

Fe allai yn wreiddiol ei fod yn gymwys mewn ffordd gyfyngedig ar gyfer sefyllfa debyg (*w75* 340)

Fe'i ysgrifennwyd tua 62-64 C.C., ychydig cyn terfyn y drefn Iddewig yn 70 C.C.

Drwy weithredu'n ddoeth, gallodd y Cristnogion yn Jerwsalem oroesi (*w86* 8/15 19)

Byddai Cristnogion mewn gwledydd eraill yn feddylol barod ar gyfer y diwedd hwnnw ac yn medru ymaddasu yn ôl yr angen (1Pedr 1:1)

Yn ein hoes ni mae pennaf gymhwysiad 1 Pedr 4:7

Pwysleisiodd Pedr amser "datguddio Iesu Grist" (1Pedr 1:7; 4:13)

'Ydym ni'n paratoi i oroesi? 'Ydym ni'n ymaddasu i fod yn barod i fyw yn y byd newydd? (*bw* 181-2)

GWEITHREDWCH YN DDOETH I ENNILL CYMERADWYAETH DUW (20 mun.)

Datblygwch ufudd-dod o'r galon i awdurdod brenhinol Duw

Mae bywyd yn dibynnu ar Dduw; ef yw Ffynhonnell yr haul, awyr, bwyd, ein grym bywydol ni

Dylem geisio ufuddhau iddo'n feunyddiol

Trowch eich cefn ar bethau y mae'n eu condemnio: anfoesoldeb, dweud celwydd, camddefnyddio gwaed (*su* 134-7)

Cyd-gyfeillachwch â gwir Gristnogion a bod â rhan yn y gwaith pregethu (*Mc* 13:10)

Paratowch 'nawr ar gyfer bywyd yn y byd newydd

Y pryd hwnnw gallwn ddisgwyl derbyn datguddiadau newydd o'i ewyllys (*Dat* 20:11, 12; *re* 298-300; *w73* 364)

Os ydym yn *ein calon* eisiau ufuddhau i Dduw 'nawr, y tebyg yw y bydd gennym yr un agwedd yn y byd newydd

Os mai o'n hanfodd yr ufuddhawn 'nawr, fe allwn ymhen amser wrthryfela hyd yn oed yn y byd newydd

Aeth yr Israeliaid drwy'r Môr Coch ond buan cwyno wnaethant (*Ex* 16:1, 2)

Arddangoswch y wir bersonoliaeth Gristnogol, gan ymladd tueddiadau drwg

Osgowch uchelgais hunanol (1Pedr 5:6; *w88* 8/15 3-7); diogi (Heb 6:11)

Meithrinwch ffrwyth yr ysbryd (Gal 5:22, 23)

'Dyw'r atgyfodiad ddim yn newid personoliaeth dyn (*lp* 175-6)

Holwch eich hun: 'Beth ydw' i fel person? 'Ydw i'n dangos diddordeb anwedus yng nghymar rhywun arall? Defnyddio alcohol yn anghymedrol? Personoliaeth awdurdodus?'

'Nawr yw'r amser i weithredu'n ddoeth drwy gywiro tueddiadau anghywir

Ymddisgyblwch i weddio (1Pedr 4:7)

Oes gennych chi berthynas agos â Jehofah, a'ch gweddiâu beunyddiol yn tystio i hynny? (Salmau 86:3)

Dylem agosáu at Dduw hyd yn oed ynglŷn ag agweddu mwyaf personol bywyd

Bydd agosrwydd at Dduw yn eich ysgogi chi i wneud yr hyn y mae ef am i chi ei wneud

Peidiwch ag ymesgusodi, gan ganolbwyntio ar y bywyd hwn

Peidiwch â rhoi eich bryd ar addysg, ymddeol, moethau

Oes problem gennych gyda'r rhain? Agorwch eich calon i Dduw (Col 4:2)

Rhowch y pwyslais ar fendithion ysbrydol Duw a'i addewidion

Ni ddisgrifir llawer o agweddu ffisegol y byd newydd—tai, teithio, cyfathrebu, dillad—yn fanwl yn y Beibl

Mae'n canolbwyntio ar fendithion ysbrydol (Salmau 85:10-13)

Bydd trefniadau o natur corfforol yn bleserus

Pethau ysbrydol ddaw â'r llawenydd mwyaf

Bydd y rhai sy'n meithrin yr ysbryd hwn 'nawr yn sicr yn asio gyda threfniadau'r byd newydd (*lp* 158-64; *tp* 106-7)

'NAWR YW AMSER GWEITHREDU I BAWB OHONOM (9 mun.)

'Roedd Pedr yn ymwybodol o'r angen hwn (2Pedr 3:11-13)

Cadwdd ei waith Cristnogol yn flaenaf yn ei feddwl a gweithredu yn ôl hynny

Wrth i'r diwedd agosáu, oni ddylem ni weithredu'n ddoeth? (*w86* 5/1 18-20; *sl* 307-9)

Dewch i berthynas weithredol, gymeradwy â Duw

Nid dim ond mynychu cyfarfodydd

Golyga gychwyn ar yrfa dragwyddol

Rhaid i'r rheiny sydd eisoes yn gwasanaethu Duw beidio â diffygio, na chael eu llygad-dynnu

Hawdd fyddai llithro'n ôl i'r gyfundrefn ddrygionus sydd yn disgwyl ei difa

Byddwch yn weithgar yn canfod pobl sydd yn wirioneddol eisiau brenhiniaeth Duw

Bydd ymarweddiad duwiol 'nawr yn batrwm y gall dyn ei ddilyn am byth (*bw* 148, 180; *w73* 6/15 360-70; *w90* 3/1 10-14, 18-23)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)